

WILLIAMS, JOHN ('Ioan Rhagfyr'; 1740 - 1821)

Enw: John Williams
Ffugenw: Ioan Rhagfyr
Dyddiad geni: 1740
Dyddiad marw: 1821
Priod: Jane Williams (née Jones)
Rhiant: William Robert Williams
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 26 Rhagfyr 1740, yn Hafoty Bach, plwyf Celynnin, Meirionnydd, mab William Robert Williams, a'i fam yn berthynas i Edward Samuel, Llangar. Symudodd y teulu i fyw i Dalrywaen, ger Dolgellau. Gwneuthurwr hetiau brethyn ydoedd y tad, a dysgodd y mab y grefft. Arferai masnachwyr gwlan o Amwythig letya yn Nhalywaen, a thynnwyd eu sylw at ddawn John Williams i ddsygu, a thalasant am dri mis o addysg iddo yn Amwythig. Cafodd wersi mewn cerddoriaeth, a dysgodd ganu'r trwmpe a'r fflwt. Wedi dychwelyd gartref dechreuodd gyfansoddi cerddoriaeth a barddoniaeth. Yn 1763 priododd â Jane, merch William Jones, Bryn Rhyg, Dolgellau. Yn 1772 rhoddodd ei grefft i fynd ac aeth yn glerc at Edward Anwyl, cyfreithiwr, ac wedi hynny bu'n cadw ysgolion yn Nhrawsfynydd, Abermaw, Dolgellau, a Llanelltyd. Efe oedd cerddor enwocaf ei gyfnod, a chyfansoddodd lawer iawn o gerddoriaeth offerynnol, anthemau, a thonau. Bu rhai o'i anthemau yn boblogaidd am amser hir, a cheir ei donau 'Sabath,' 'Cemaes,' a 'Dyfroedd Siloah' yn ein casgliadau tonau. Ceir ei ddarnau offerynnol - yr ymdeithganau, gavottes, a minuets - yn *Y Cerddor Cymreig* ('*Ieuan Gwyllt*'). Yn llyfr *Ffoulk Robert Williams* ('Eos Llyfnwy') 'Cerddoriaeth o Gerddi Seion' mewn llawysgrif sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ceir 59 o donau a 21 o anthemau o waith John Williams. Bu farw 11 Mawrth 1821 a chladdwyd ef ym mynwent Llanfair Bryn Meurig.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Seren Gomer, Mai 1822

Y Cerddor, Chwefror 1889

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889-96)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŵr 1867-70)*, ii, 645-6

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44031400

Wikidata: Q28361531

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1953). WILLIAMS, JOHN ('Ioan Rhagfyr'; 1740 - 1821). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-JOH-1740>

Prifysgol

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government